

AROLWG O'R DIWYDIANT CYFIEITHU YNG NGHYMRU

Menter a Busnes
Prif Swyddfa/Headquarters
Parc Gwyddoniaeth
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH
01970 636 565
aber@menterabusnes.co.uk

Menter a Busnes
Ty Meandros
54a Heol Bute
Caerdydd
CF10 5AF
029 20 467 400
caerdydd@menterabusnes.co.uk

Menter a Busnes
Adeilad Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4SG
01248 672 610
bangor@menterabusnes.co.uk

Menter a Busnes
Uned 2A
Stâd Ddiwydiannol Hendy
Hendy
Sir Gaerfyrddin
SA4 0XP
01792 886 300
hendy@menterabusnes.co.uk

Menter a Busnes
Siambrau Tudur
Ffordd Caer
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1EG
yrwyddgrug@menterabusnes.co.uk

www.menterabusnes.co.uk

Paratowyd gan:

Menter a Busnes

Ar gyfer :

Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

10 Mai 2005

CYNNWYS

TUD.

1.	Cyflwyniad	3
2.	Methodoleg	4
3.	Prif Ddarganfyddiadau	6
3.1	Cwmnïau Cyfieithu a Chyfieithwyr Hunangyflogedig	6
3.2	Cyfieithwyr yn y Sector Gyhoeddus a Gwirfoddol	10
3.3	Comisiynwyr Cyfieithu	12

Atodiad 1 Holiadur A – Cyfieithwyr

Atodiad 2 Holiadur B – Comisiynwyr Cyfieithu

Atodiad 3 Enwau a chyfeiriadau cyfieithwyr

Atodiad 4 Enwau a chyfeiriadau comisiynwyr

1. Cyflwyniad

Apwyntiwyd Menter a Busnes yn Chwefror 2005 i ymgymryd ag arolwg ystadegol o'r maes cyfieithu yng Nghymru gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Yn gyntaf, edrychwyd mewn dyfnder ar y cyfieithwyr eu hunain, er mwyn deall mwy am y maes a'r math o waith sy'n cael ei gyflawni, yn ogystal ag ystyried eu barn am ddatblygiadau'r dyfodol.

Yn ail, yr oedd yr arolwg hefyd yn ystyried barn y comisiynwyr er mwyn deall pwy sy'n comisiynu gwaith, pa fath o waith a gomisiynir a beth sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol i'r maes cyfieithu yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu yn gryno:

- Prif ddarganfyddiadau'r ymchwil i gyfieithwyr yn y sector breifat
- Prif ddarganfyddiadau'r ymchwil i gyfieithwyr yn y sector gyhoeddus a'r sector gwirfoddol
- Prif ddarganfyddiadau'r ymchwil a wnaed gyda'r comisiynwyr.

Ceir copïau o'r holiaduron a ddefnyddiwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn, ynghyd â manylion cyswllt y rhai hynny a ddarparodd wybodaeth.

2. Methodoleg

Yn dilyn apwyntiad Menter a Busnes i gyflawni'r arolwg ystadegol, cynhaliwyd cyfarfod cychwynol ar 24 Chwefror 2005 gyda Megan Hughes Tomos yn swyddfa'r Gymdeithas ym Mangor.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, trafodwyd nifer o faterion ymarferol oedd yn ymwneud â'r arolwg gan gynnwys cynllunio a chaffael sampl, llunio holiadur drafft ac amserlen.

Gan fod dwy brif ran i'r gwaith ymchwil, lluniwyd dau holiadur ar gyfer dau fas data gwahanol. Yr oedd Holiadur A wedi'i lunio yn bennaf ar gyfer cwmnïau cyfieithu, cyfieithwyr hunangyflogedig a chyfieithwyr yn y sector gyhoeddus/gwirfoddol. Yr oedd Holiadur B wedi'i lunio ar gyfer holi comisiynwyr cyfieithu yng Nghymru a thu hwnt. Penderfynwyd cynnal yr arolwg drwy'r post, gan fod yma ddau fas data sylweddol, ac er mwyn cyrraedd at y nifer mwyaf posibl.

Holiadur A – Cyfieithwyr

Danfonwyd Holiadur A at oddeutu 900 o gwmnïau cyfieithu. Lluniwyd y bas data o nifer o ffynonellau amrywiol gan gynnwys bas data aelodau CCC, bas data cleientiaid Potentia a Ffatri Fenter Menter a Busnes a bas data aelodau Cwllwm Busnes.

Derbyniwyd 171 o ymatebion sydd yn ymateb uwch na'r disgwyl o 19%. Mae hyn bron ddwywaith yr ymateb y gellir ei ddisgwyl gyda holiaduron post (mae'r ymateb ar gyfartaledd tua 10%). Dengys hyn fod cryn gefnogaeth o du cyfieithwyr i gyfrannu at ddatblygiad strategaeth yn y maes.

Holiadur B – Comisiynwyr

Lluniwyd bas data cynhwysfawr o gomisiynwyr cyfieithu hefyd. Crynhowyd y wybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys bas data ymholiadau a gweithdai CCC a bas data Bwrdd yr Iaith Gymraeg o sefydliadau a chyrrff sydd â chynllun iaith.

Aethpwyd ati i lanhau'r bas data gan gael gwared o fanylion cyswllt sefydliadau a oedd yn codi eilwaith neu'n anghyflawn. Danfonwyd oddeutu 600 holiadur at gomisiynwyr cyfieithu, a derbyniwyd 119 o ymatebion sydd yn gyfradd ymateb o 20%.

Mae canlyniadau'r ymchwil yn seiliedig ar yr ymatebion a ddaeth i law. Serch hynny yr oedd rhai o'r ymatebwyr yn gymwys i ateb mwy nag un adran. Er enghraifft yr oedd rhai ymatebwyr yn gyfieithwyr o fewn sefydliad ond hefyd yn gyfrifol am gomisiynu cyfieithwyr allanol.

Mae'r ymateb felly fel a ganlyn:

	Nifer o ymatebion	% o'r holl ymateb
Cyfieithwyr sector breifat	98	26%
Cyfieithwyr yn y sector gyhoeddus /gwirfoddol	114	31%
Comisiynwyr cyfieithu	159	43%

3. Prif ddarganfyddiadau

Ceir gwybodaeth isod am y data a ddadansoddwyd o ymatebion yr holiaduron.

Mae adran 3.1 yn trafod ymatebion y cyfieithwyr hynny a oedd un ai yn berchnogion cwmnïau cyfieithu, yn gweithio i gwmnïau cyfieithu yn y sector breifat neu yn gyfieithwyr hunangyflogedig. Mae 2.2. yn edrych yn benodol ar ymatebion o'r sector gyhoeddus neu'r sector wirfoddol, tra bod 3.3 yn darparu dadansoddiad o ddata a dderbyniwyd gan gomisiynwyr cyfieithu.

3.1 Cwmnïau Cyfieithu a Chyfieithwyr Hunangyflogedig

Yr oedd 36% o'r cyfieithwyr a ymatebodd wedi bod yn cyfieithu am 10 mlynedd a mwy, ond ar yr ochr arall i'r sbectrwm yr oedd 32% yn gymharol newydd i'r maes ac wedi bod yn cyfieithu am lai na thair blynedd:

Siart 1: Nifer o flynyddoedd yn gweithio fel cyfieithydd

Nifer o flynyddoedd	Canran
1-3	32%
3-6	16%
6-9	12%
10 mlynedd a mwy	36%

O ran defnydd o dechnoleg gwybodaeth, yr oedd pecynnau meddalwedd penodol yn boblogaidd iawn gyda 74% yn defnyddio Cysill yn gyson, 62% yn defnyddio'r Termiadur Ysgol, 59% yn defnyddio CysGair a 48% yn gwneud defnydd o Cysgliad.

Siart 2: Meddalwedd a ddefnyddir gan gyfieithwyr

Meddalwedd	% ymatebion
Cysill	74%
Termiadur Ysgol	62%
CysGair	59%
Cysgliad	48%
Office XP gyda gwirydd sillafu Cymraeg	35%
Windows XP yn y Gymraeg (gyda'r pecyn rhyngwyneb iaith)	21%
Office 2003 yn Gymraeg (gyda'r pecyn rhyngwyneb iaith)	11%
Deja Vu	8%
Trados	8%
Wordfast	4%
Meddalwedd rheoli terminoleg	3%
Star	0%
SDLX	0%

Nododd 5% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio meddalwedd arall ac yr oedd yr ymatebion hynny yn cynnwys Word 2000, nero wave 2 a hyd yn oed Geiriadur yr Academi!

Yr oedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r gosodiad y gall Technoleg Gwybodaeth wella byd cyfieithwyr gyda dim ond 8% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda'r gosodiad.

Roedd 71% o gyfieithwyr hefyd yn cytuno neu'n cytuno yn gryf gyda'r gosodiad '*Rwy'n ffyddiog y bydd y galw am wasanaethau cyfieithu yn parhau i gynyddu yng Nghymru*'.

Gofynnwyd i berchnogion cwmnïau cyfieithu nodi'r nifer o staff yr oeddynt yn eu cyflogi. Ar gyfartaledd, y mae cwmni cyfieithu yn cyflogi 3.7 o staff, ac mae cyfieithwyr yn cyflawni 85 awr o gyfieithu'r mis ar gyfartaledd yn ôl canlyniadau'r ymchwil.

Serch hynny yr oedd yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch y nifer o oriau cyfieithu a gyflawnir mewn mis yn amrywio o ddim oriau o gwbl i dros 300 o oriau. Gan fod perchnogion cwmnïau cyfieithu a chyfieithwyr eu hunain yn ateb y cwestiwn, y mae'n bosibl fod yr ymateb wedi ei sgiwio i ryw raddau gan ymatebion y perchnogion. Hynny yw, mae'n deg ystyried eu bod yn debygol o dreulio llawer llai o oriau yn cyfieithu, gan eu bod yn hytrach yn canolbwyntio ar agweddau rheoli a rhedeg cwmni.

Dim ond 8% o gyfieithwyr a nododd eu bod yn tendro ar y cyd gyda chyfieithwyr eraill am waith. O ran dosraniad eu horiau i dasgau amrywiol, mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Siart 3: Canran o oriau a dreulir ar dasgau cyfieithu

Tasg	Canran Cyfartaledd
Cyfieithu Testunau Saesneg > Cymraeg	72%
Cyfieithu Testunau Cymraeg > Saesneg	15%
Cyfieithu ar y pryd Saesneg > Cymraeg	2%
Cyfieithu ar y pryd Cymraeg > Saesneg	7%
Is-deitlo a throsleisio Saesneg > Cymraeg	0%
Is-deitlo a throsleisio Cymraeg > Saesneg	1%

Nid yw 68% o gwmnïau cyfieithu yn is-gontractio unrhyw waith i unigolion / cwmnïau cyfieithu eraill. O'r 30% sydd yn is-gontractio gwaith i gwmnïau / unigolion eraill, maent yn is-gontractio tua 29% o'u gwaith ar gyfartaledd.

O ran cwsmeriaid i'r gwaith cyfieithu, mae dros hanner y gwaith yn dod o du'r sector cyhoeddus, gyda bron i draean y gwaith yn cael ei gomisiynu gan y sector preifat:

Siart 4: Cwsmeriaid gwaith cyfieithu

Cwsmer:	% Gwaith
Sector Cyhoeddus	57%
Sector Preifat	27%
Sector Gwirfoddol	17%

Mae'r mwyafrif llethol o'r holl waith cyfieithu (71%) yn dod o gyrff sydd yn gyfyngedig i Gymru, gydag 14% pellach yn cael ei gomisiynu gan adrannau'r Llywodraeth yng Nghymru a Lloegr ac 8% gan gwmnïau ac asiantaethau cyfieithu yn Lloegr.

3.2 Cyfieithwyr yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol

O fewn y sector cyhoeddus a gwirfoddol mae bron i 4 o bob 5 swydd yn rhai llawn amser, gyda 21% yn gweithio ar raddfa rhan amser.

Siart 5: Cyflogaeth cyfieithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol

A ydych yn gyflogedig yn:	%
Llawn Amser	79%
Rhan amser	21%

O'r cyfieithwyr cyflogedig, roedd dros draean o'r ymatebwyr (39%) yn cyfrif cyfieithu fel eu hunig ddyletswydd yn y gwaith, ond roedd 61% yn nodi fod ganddynt ddyletswyddau eraill yn ogystal.

Os oedd ganddynt gyfrifoldebau yn ychwanegol at gyfieithu, gofynnwyd iddynt nodi eu swydd deitl, ac roedd amrywiaeth eang yn cael eu nodi. Yr oedd rhai o'r swydd deitlau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Swyddog Iaith
- Gweinyddydd / Swyddog Gweinyddol
- Pennaeth Cyfieithu
- Swyddog gyda'r Fenter Iaith
- Ymgynghorydd

O ran dosraniad eu horiau gwaith i dasgau cyfieithu penodol, yr oedd y mwyafrif o'u horiau cyfieithu - 65% - yn ymwneud â chyfieithu testunau o'r Saesneg i'r Gymraeg, tra roedd 14% o'u hamser yn ymwneud â chyfieithu testunau o'r Gymraeg i'r Saesneg. Prin iawn oedd yr oriau a dreuliyd ar dasgau cyfieithu eraill.

Siart 6: Dosraniad oriau cyfieithu gan gyfieithwyr y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

Nodwch pa ganran o'ch oriau a dreuliwch yn:	Canran Cyfartaledd
Cyfieithu Testunau Saesneg > Cymraeg	65%
Cyfieithu Testunau Cymraeg > Saesneg	14%
Cyfieithu ar y pryd Saesneg > Cymraeg	1%
Cyfieithu ar y pryd Cymraeg > Saesneg	5%
Is-deitlo a throsleisio Saesneg > Cymraeg	0.5%
Is-deitlo a throsleisio Cymraeg > Saesneg	0.2%

Fel rhan o holiadur B, gofynnwyd i'r rhai hynny sy'n cyflogi cyfieithwyr sut yr oeddynt yn mynd ati i sicrhau ansawdd wrth benodi staff cyfieithu. Nododd bron i hanner eu bod yn gosod prawf fel rhan o'r drefn penodi. Yr oedd cymhwyster proffesiynol hefyd yn hanfodol i nifer. Nododd un o bob pump eu bod yn gofyn am farn siaradwyr Cymraeg cyn penodi hefyd.

Siart 7: Sicrhau ansawdd wrth benodi cyfieithwyr

Dull sicrhau ansawdd	Canran
Gosod prawf fel rhan o'r drefn	48%
Apwyntio cyfieithydd sydd â chymhwyster proffesiynol	31%
Dibynnu ar gyngor siaradwyr Cymraeg (os yw ar gael)	21%
Comisiynu gwasanaeth ymgynghorol allanol	10%

3.3 Comisiynwyr Cyfieithu

Wrth gomisiynu cyfieithwyr, mae dau ddewis yn wynebu comisiynwyr. Y dewis cyntaf yw comisiynu cwmnïau cyfieithu, a nododd 45% eu bod yn dilyn y trywydd hwn. Yr oedd y 55% arall felly yn nodi eu bod yn fwy tebygol o gomisiynu cyfieithwyr hunan gyflogedig.

Roedd 50% o gomisiynwyr yn ystyried y broses gyfieithu cyn i'r gwaith o baratoi dogfennau gychwyn, tra roedd 29% yn ystyried yr angen am gyfieithu rywbryd yn ystod y broses o lunio dogfen. Roedd 14% felly yn ystyried cyfieithu wedi iddynt gwblhau dogfennau.

Disgwylid ystod o wasanaethau amrywiol gan gyfieithwyr yn ôl ymatebion y comisiynwyr. Yr oedd y mwyafrif - 40% - yn disgwyl gwasanaeth cyfieithu a phrawf ddarllen, tra roedd 34% yn disgwyl gwasanaeth cyfieithu, prawf ddarllen a chyngor ar faterion yn ymwneud â dwyieithrwydd. Dim ond gwasanaethau cyfieithu yn unig a ddisgwyliai 25% o'r comisiynwyr.

Yr oedd amrywiaeth yn y math o waith a gomisiynwyd hefyd. Mae'r ymatebion fel a ganlyn:

Siart 8: Gwaith cyfieithu a gomisiynir

Math o waith a gomisiynir:	Canran:
Cyfieithu Testun Saesneg > Cymraeg	44%
Cyfieithu Testun Cymraeg > Saesneg	24%
Cyfieithu ar y pryd Saesneg > Cymraeg	11%
Cyfieithu ar y pryd Cymraeg > Saesneg	18%
Is-deitlo a throsleisio Saesneg > Cymraeg	2%
Is-deitlo a throsleisio Cymraeg > Saesneg	1%

Gofynnwyd i gomisiynwyr nodi pa ganran o holl waith cyfieithu'r sefydliad oedd yn cael ei is-gontractio ac i ble. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Siart 9: Canran o'r holl waith cyfieithu a gomisiynir ac i bwy

	% Cyfartaledd
Cyfieithu Testun	
Cwmnïau cyfieithu yng Nghymru	43%
Cwmnïau cyfieithu yn Lloegr	3%
Unigolion	37%
Cyfieithu ar y pryd	
Cwmnïau cyfieithu yng Nghymru	39%
Cwmnïau cyfieithu yn Lloegr	1%
Unigolion	30%
Is-deitlo a throslaisio	
Cwmnïau cyfieithu yng Nghymru	1%
Cwmnïau cyfieithu yn Lloegr	0
Unigolion	3%

Dengys y ffigyrau uchod fod 83% o'r holl waith cyfieithu testun yn cael ei gyflawni gan gyfieithwyr allanol i'r sefydliad/cwmni, gyda 43% yn mynd at gwmnïau cyfieithu yng Nghymru a 37% yn mynd at gyfieithwyr hunangyflogedig.

O ran cyfieithu ar y pryd, gwelir patrwm tebyg gyda 70% o'r holl waith cyfieithu ar y pryd yn cael ei gomisiynu yn allanol - eto i gwmnïau cyfieithu yng Nghymru ac unigolion yn bennaf.

O ran is-deitlo, rhaid gochel rhag meddwl bod 96% o'r gwaith is-deitlo a throslaisio yn digwydd yn fewnol. Gan fod cymaint o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi bod yn 0% y mae'n debygol nad oes gwaith o'r math hwn yn cael ei gyflawni o gwbl yn y mwyafrif o sefydliadau a chwmnïau sy'n comisiynu.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon, mae comisiynwyr yn defnyddio ystod o dechnegau. Y ddwy brif dechneg a ddefnyddir yw comisiynu cyfieithydd sydd â chymhwyster proffesiynol (46%) a dibynnu ar siaradwyr Cymraeg (34%)

Siart 10: Sicrhau gwasanaeth o safon wrth gomisiynu cyfieithwyr

Dull sicrhau ansawdd:	Canran:
Gosod tasg cyn comisiynu	16%
Comisiynu cyfieithydd sydd â chymhwyster proffesiynol	46%
Dibynnu ar gyngor yr Uned Gyfieithu (Ile bo'n briodol)	18%
Dibynnu ar gyngor siaradwr Cymraeg (Ile bo'n briodol)	34%
Comisiynu barn ymgynghorydd allanol	0%
Arall	21%

Fel y gwelir o'r siart uchod, y mae un o bob pump wedi nodi dulliau eraill o sicrhau safon. Yr ymatebion mwyaf cyffredin yma oedd:

- gofyn am enghreifftiau o waith / darllen gwaith blaenorol
- golygu'r gwaith gorffenedig / staff mewnol yn prawf ddarllen
- defnyddio ein safonau a phrosesau gwerthuso mewnol
- gwirio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg

O ran comisiynu gwaith cyfieithu yn y dyfodol, yr oedd 52% o'r farn y byddent yn debygol o gomisiynu mwy o waith yn y dyfodol, tra roedd 43% yn credu y byddai'r gwaith a gomisiynir yn aros yr un fath. Dim ond 5% oedd o'r farn y byddai llai o waith cyfieithu yn cael ei gomisiynu yn y dyfodol.

Nid oedd 53% o'r ymatebwyr yn meddwl y buasent yn drafftio mwy o waith yn y Gymraeg, ac yna cyfieithu i'r Saesneg yn y dyfodol, ac roedd 30% yn ansicr beth fyddai eu bwriad yn y dyfodol. Dim ond 17%

oedd o'r farn y buasai mwy o ddrafftio yn y Gymraeg yn digwydd yn y dyfodol.

Holwyd y comisiynwyr am feddalwedd cof cyfieithu, ond dim ond 31% oedd erioed wedi clywed am y dechnoleg hon. O'r rheiny oedd wedi clywed am y dechnoleg, dim ond 37% fyddai'n fwy tebygol o gontractio i gyfieithwyr sy'n defnyddio'r dechnoleg.